---

# C.Y.S.A.G. - CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL 10.02.10

---

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Pat Larsen, (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards, (Is-gadeirydd)

**Aelodau Cyngor Gwynedd :** Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Dafydd W. Roberts

**Cristnogion a chrefyddau eraill:** Mrs. Ruth Davies, (Undeb Bedyddwyr Cymru), Mr Wyn Myles Meredith, (Eglwys Fethodistaidd), Y Parch. Robert Townsend (Yr Eglwys Yng Nghymru Esgobaeth Bangor).

**Athrawon:** Mr Noel Dyer, (UCAC), Miss Miriam Williams (NAS/UWT)

**Swyddogion:** Mr Ken Robinson (Swyddog Addysg Cynorthwyol a Chlerc CYSAG), Miss Bethan James (Ymgynghorydd Dyniaethau), Mrs Glynda O'Brien, (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Mr Gwyn Hefin Jones (Eglwys Presbyteraidd Cymru), Mr Paul Mathews-Jones (SHA), a Mr Rheinallt Thomas.

## 1. GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards.

## 2. COFNODION

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar y 14 Hydref 2009.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

## 3. AROLYGIADAU YSGOLION

Cyflwynwyd:

**(A)** Gwybodaeth ar gynnwys adroddiadau arolygiadau ysgolion dan Adran 28 Deddf Addysg 2005 mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol y disgyblion.

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Addysg Cynorthwyol (Clerc CYSAG) mai'r nod ydoedd i ysgolion gyrraedd Gradd 1 neu 2 yn yr arolygiadau ac ymfalchiwyd yn y ffaith bod y mwyafrif ohonynt a arolygwyd dros y flwyddyn diwethaf wedi gwneud hynny.

Tywysodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yr Aelodau drwy'r arolygiadau ar yr ysgolion canlynol:

- Ysgol Dyffryn Nantlle
- Ysgol Gynradd Llanaelhaearn
- Ysgol Gynradd Llanrug
- Ysgol Gynradd Rhiwlas

- Ysgol Gynradd Llwyngwril
- Ysgol Gynradd Bro Cynfal
- Ysgol Gynradd Waunfawr
- Ysgol Gynradd Cae Top

Nodwyd bod dwy o'r ysgolion wedi eu harolygu yn y pwnc addysg grefyddol sef Ysgolion Cynradd Llanaelhaearn a Llwyngwril. 'Roedd gweddill yr ysgolion wedi eu harolygu drwy roi sylw i ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Yng nghyswllt Ysgol Dyffryn Nantlle, nodwyd bod yr ysgol yn cynnig cyfleoedd helaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol moesol a diwylliannol y disgyblion. Cyfeiriad at frawddeg yn yr arolygiad a oedd yn datgan "nad yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol y disgyblion yr un mor effeithiol – nid yw'r weithred ddyddiol o gyd addoli yn herio a chyfoethogi profiadau ysbrydol y disgyblion". Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau ei bod yn ffyddiog y bydd yr ysgol yn mynd i allu ymateb i'r her yma yn enwedig wrth i fwy o ddeunyddiau addoli ar y cyd gael eu rhannu ar lefel cenedlaethol. 'Roedd cyfrifoldeb ar bob Adran i gyfrannu at yr agenda hwn ac mae'n siwr bod yr ysgol yn siomedig nad oedd yr Arolygwyr wedi manteisio ar y ffaith ei bod wedi cynnal Diwrnod Coffau'r Holocost y llynedd pryd y bu i Gydlynydd Addysg Grefyddol yr ysgol berswadio pob Adran o fewn yr ysgol i gynnal rhyw weithgaredd i ymwneud â choffau'r Holocost. Yn sicr, byddai hyn wedi rhoi her i ddisgyblion i feddwl yn ysbrydol mewn cyd-destun pwnc.

O'r ysgolion cynradd, llongyfarchwyd Ysgol Llanaelhaearn yn arbennig am lwyddiant o gael Gradd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2 a Gradd 2 yng Nghyfnod Allweddol 1. Cyfeiriwyd at y gofyn statudol i gynnal addoliad ar y cyd ond hefyd profiadau yn ymwneud a datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion.

Yn yr un modd cyfeirwyd at brofiadau rhagorol yn Ysgol Llanrug, a nodweddion da yn ymwneud a datblygiad ysbrydol a moesol yn Ysgol Rhiwlas. Tynnwyd sylw bod Ysgol Rhiwlas wedi llwyddo dan amodau anodd iawn o ystyried mai Pennaeth Dros Dro oedd yno pryd adolygwyd yr ysgol.

'Roedd Ysgol Llwyngwril wedi derbyn sawl her yn ddiweddar o ystyried mai Pennaeth Dros dro sydd yn ofal yr ysgol ac fe lwyddodd i gyrraedd Gradd 2 yn y ddau Gyfnod Allweddol o dan amgylchiadau anodd dros ben Tynnwyd sylw at gyfnod pryd mynegwyd bryder nad oedd disgyblion yn cael eu herio i ymdrin â chwestiynau mawr ac fe welir yma bod yr ysgolion yn mentro i drafod cysyniadau megis cyd-wybodaeth, maddeuant ac ufudd-dod a dylanwad cred ar gredinwyr.

Canmolwyd Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Waunfawr am y ddarpariaeth rhagorol yn natblygiad ysbrydol a moesol.

Disgrifiwyd darpariaeth fel un hynod effeithiol yn Ysgol Gynradd Cae Top gan yr Arolygwyr.

I gloi, gofynnwyd am arweiniad ynglyn â natur y llythyrau o longyfarchion i'w hanfon i ysgolion oherwydd yn y gorffennol anfonwyd llythyrau at yr ysgolion hynny a oedd wedi llwyddo'n dda yn y pwnc Addysg Grefyddol. Cynigwyd bod llythyr o longyfarch yn cael ei anfon i phob un o'r ysgolion ond ar ffurf gwahanol i'r ysgolion hynny a arolygwyd yn unol â threfn cwestiwn allweddol 3.

(b) Gan gynrychiolydd Yr Eglwys yng Nghymru ei fod yn mynychu Ysgol Brynrefail yn rheolaidd i gynnal gwasanaeth o addoliad ar y cyd ac un o argymhellion adolygiad diweddar gan Yr Eglwys yng Nghymru ydoedd ceisio datblygu a meithrin cysylltiad hefo ysgolion uwchradd yn enwedig yn y cyswllt hwn o addoli ar y cyd.

Roedd o'r farn y byddai arweinwyr o'r enwadau yn fwy na bodlon ymweld ag ysgolion i gynorthwyo yn natblygiad ysbrydol a moesol disgyblion ac awgrymwyd a fyddai o fudd i

Glerc CYSAG ysgrifennu at Benaethiaid Ysgolion Uwchradd i ganfod os oedd arweinwyr enwadau yn mynychu'r ysgolion ac os nad oeddynt, a fyddent yn fodlon iddynt fynychu.

Mewn ymateb, 'roedd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn ymwybodol bod nifer o ysgolion cynradd yn derbyn cefnoaeth gan arweinwyr yr enwadau a phob amser yn cael croeso yn yr ysgolion. Efallai ei bod yn her wahanol i Ysgolion Uwchradd o ystyried yr angen i ymgynnull disgyblion mewn un lle. 'Roedd cyfrifoldeb ar ysgol i gynnal addoli ar y cyd ond nid o reidrwydd mewn un lle ac yn aml 'roedd hyn yn digwydd mewn ystafelloedd dosbarth neu grwpiau blwyddyn.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr arolygiadau a gofyn i'r Swyddog Cynorthwyol Addysg, ar ran CYSAG, anfon yn unol â'r drefn llythyr o longyfarch i phob un o'r ysgolion a oedd wedi ei harolygu ond ar ffurf gwahanol i'r ysgolion hynny a arolygwyd yn unol â threfn cwestiwn allweddol 3.**

**(b) Gofyn i'r Swyddog Cynorthwyol Addysg gywain gwybodaeth gan Benaethiaid Ysgolion Uwchradd fel a ganlyn:**

**(i) a ydynt yn gwneud defnydd o arweinwyr crefyddol lleol drwy eu gwahodd i'r ysgolion**

**(ii) os ydynt, pa ddefnydd a wneir o'r trefniadau hyn.**

**(B)** Crynodeb o hunan arfarniad yr ysgolion canlynol:

- **(i) Ysgol Gynradd Rhiwlas**
- **(ii) Ysgol Gynradd Bro Cynfal**
- **(iii) Ysgol Gynradd Bontnewydd**
- **(iv) Ysgol Gynradd Llwyngwril**

(i) Atgoffodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yr Aelodau o'r drefn i ysgolion gyflwyno Hunan Arfarniadau sef pe na fyddai ysgol yn cael ei harolygu yn y pwnc Addysg Grefyddol gofynnir i'r ysgol honno o fewn blwyddyn yr arolygiad i gyflwyno Hunan Arfarniad o'r pwnc Addysg Grefyddol ac o'r elfen yn ymwneud â datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. Nodwyd bod gan CYSAG gyfrioldeb i fonitro safonau Addysg Grefyddol a theimlwyd bod y drefn yn llwyddiannus drwy dderbyn yr Hunan Arfarniadau fel ffordd o fonitro safonau'r ysgolion. Cyfeiria'r pedwar Hunan Arfarniad a gyflwynwyd gan yr ysgolion a nodir uchod at yr agweddau a fyddai'n cael sylw. Crybwyllwyd y byddai'r drefn o arolygu yn newid yn 2010 ac ni fyddir yn derbyn adroddiad penodol o'r pwnc Addysg Grefyddol ond y byddir yn parhau gyda'r drefn o gasglu Hunan Arfarniadau. Ymgynghorodd yr Ymgynghorydd Dyniaethau hefo'i chydweithwyr ar draws Cymru pryd y bu iddynt gyfnewid dogfennaeth er canfod arferion da gan y gwahanol CYSAGau. Bwriedir cael trafodaethau pellach ynglyn â'r her o ran monitro safonau Addysg Grefyddol i'r dyfodol. Awgrymwyd i Aelodau sydd hefyd yn lywodraethwyr o ysgolion ganfod pa drefn a ffafrir o ran y drefn monitro.

(ii) Mynegodd Aelod ei fod yn gweld yr hunan arfarniadau yn ddefnyddiol iawn i bwrpas rhoi arweiniad o'r hyn ddylid gyflawni a'u bod yn hynod ddefnyddiol i CYSAG Gwynedd fel bo modd monitro safonau yn y cyfamser cyn yr arolygiadau ffurfiol.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr hunan arfarniadau.**

## 4. ADDYSG GREFYDDOL AR LAWR Y DOSBARTH

Croesawyd Mrs Sianelen Pleming, Pennaeth Ysgol Llanaelhaearn, i'r cyfarfod a chafwyd braslun ganddi o'r hyn arweiniodd i'r ysgol dderbyn rhagoriaeth o Radd 1 yng Nghyfnod Allweddol 2 a Gradd 2 yng Nghyfnod Allweddol 1 yn dilyn arolygiad gan Arolygwyr ESTYN yn Hydref 2009.

Eglurwyd mai ysgol fach yn hanesyddol oedd ysgol Llanaelhaearn gyda 37 o ddisgyblion yn mynychu ar hyn o bryd a dwy athrawes yn dysgu yno. Lleolir yr ysgol mewn ardal difreintiedig gyda chefndir y plant yn amrywiol ac allan o 20 o ddisgyblion yn Nosbarth y Pennaeth, dau yn unig oedd yn mynychu lle o addoliad ar y Sul.

Cafwyd enghreifftiau o'r thema a gyflwynir i'r disgyblion ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddir megis llyfrau, erthyglau papur newydd, cywain gwybodaeth o'r We, a.y.b. Edrychwyd ar weithgareddau megis "Diwrnod amgylcheddol y Byd" a oedd yn rhoi cyfle i'r disgyblion ymateb i'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.

Gwelwyd engreifftiau o'r math o gyflwyniadau a wnaed gan y disgyblion ar ffurf ffotostori o hanes Tom Nefyn a Gwilym Davies.

Pwysleiwyd bod y plant ar wahanol lefelau o fewn y dosbarth ac o'r herwydd bod angen addasu'r gwaith ar eu cyfer. Cawsont brofiadau i wneud gwaith celf, taith pererin ynghyd â phererindota mewn crefyddau eraill yn ogystal ag edrych ar lefydd sanctaidd. O siarad â'r plant daeth yr Arolygwyr i'r farn eu bod yn deall cydwybod, maddeuant, ac ufudd-dod ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o effaith a dylanwad cred ar gredinwyr.

I gloi, dywedodd Mrs Pleming ei bod yn ffodus yn Llanaelhaearn o gael cydweithio a pherthynas dda iawn rhwng y Rheithor â'r ysgol ac yn cael cyfle i ymweld â'r Eglwys.

Diolchwyd am y cyflwyniad diddorol dros ben a gyflwynwyd gan Mrs Sianelen Pleming a'i llongyfarch ar lwyddiant yr ysgol yn deillio o'r arolygiad rhagorol. Diolchwyd iddi am ei hymroddiad a'i gwaith clodwiw a wneir hefo'r plant o ystyried bod llawer o'r disgyblion angen addysg ychwanegol.

## 5. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU

**Adroddwyd:** Gan Mr Wyn Myles Meredith y bu iddo fynychu cyfarfod o Gymdeithas CYSAGau Cymru ar 13 Tachwedd 2009 yn Rhondda Cynon Taf ac yn wyneb y ffaith na dderbyniwyd gofnodion drafft o'r cyfarfod hwnnw hyd yma, 'roedd yn tynnu sylw i rai o brif faterion a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw.

Cafwyd dri cyflwyniad arbennig iawn yn y cyfarfod gan:

(i) Joanne Glenn, Pennaeth Uned Strategaeth Cydlyniad Cymunedol, Llywodraeth y Cynulliad, ar ei gwaith yn ymwneud â chydlyniad cymunedol a'r angen i'w ddeall yn ehangach gan ymglymu pob ffydd a hil. Mae'n ymwneud:

- â datblygu dealltwriaeth y naill a'r llall gan barchu hefo cyfleon cyfartal i gyfranogi a chymryd rhan mewn gweithgareddau
- integreiddio, gwerthfawrogi gwahaniaethau unigol a chanolbwyntio ar werthoedd rhanedig

Fe fyddai gan pob ardal yng Nghymru ei faterion ei hun i'w hymateb ac fe 'roedd deddfwriaeth ar gael i gefnogi cydlyniad cymunedol. Fe fyddai'r strategaeth yn ymwneud âg adnabod

pryderon unigolion ac yn canolbwyntio ar faterion tai, dysgu, sgiliau cyfathrebu, cynhwysiad cymdeithasol, cydraddoldeb ac atal eithafiaeth

Mynegodd sawl aelod yn y Gymdeithas bryder bod y prosiect wedi ei ganolbwyntio ar ffydd Mwslimaidd ac y dylai gael ei ehangu. Nodwyd bryder hefyd y byddai'r strategaeth yn tanseilio'r berthynas hefo cymunedau Mwslimaidd.

(ii) Tania ap Sion ar gefndir a gwaith Canolfan y Santes Fair, Penarlag, sydd yn canolbwyntio ar gefnogi Addysg Grefyddol drwy addoli ar y cyd mewn ysgolion drwy ymchwil, deunyddiau a chyrsiau achrededig.

(iii) Mary Parry ar boblogrwydd cyflwyno doliau personá i ysgolion ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen er mwyn cyflwyno gwahanol ffydd.

**PENDERFYNWYD:** **(a) Derbyn a nodi cynnwys y cofnodion.**

**(b) Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ddydd Iau, 18 Mawrth 2010 yn Abertawe.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG 2008/09

**Adroddwyd:** Gan y Clerc nad oedd yr Adroddiad Blynyddol wedi ei hargraffu hyd yma ond fe sicrhawyd y byddir yn anfon copi, er gwybodaeth, i Aelodau CYSAG mor fuan a bo modd.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

## 7. GOHEBIAETH

Cyfeiriodd Clerc CYSAG at yr ohebiaeth isod a dderbyniwyd a bod copiau ar gael i'r Aelodau:

(a) Rhifyn y Gaeaf o gylchgrawn Addysg Grefyddol a thynnwyd sylw at erthygl ddiddorol "Ar Drywydd yr Holocost" gan Mrs Leusa Jones, Pennaeth Addysg Grefyddol, Ysgol Dyffryn Nantlle, o fewn y rhifyn hwn.

(b) Taflen AGweddau yn son am Wynebu'r Her drwy Addysg grefyddol gan Vicky Barlow, Ymgynghorydd Addysgu a Dysgu dros AG, Gwasanaeth Wrecsam i Blant a Phobl Ifanc.

**Penderfynwyd:** **Derbyn a nodi'r uchod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2 pm a daeth i ben am 3:20 pm

**CADEIRYDD**